

Pan fydd arolygydd iechyd a diogelwch yn galw

Beth i'w ddisgwyl pan fyddwn yn ymweld â'ch busnes

Ynghylch y daflen hon

Mae'r daflen hon yn dweud wrthoch chi beth all ddigwydd pan fydd un o'r arolygwyr yn ymweld â'ch gweithle.

Cyn i ni ddechrau

Ein gwaith ni yw cadw pobl yn ddiogel ac yn iach yn y gweithle. Rydym yn ymweld â miloedd o leoliadau yn flynyddol fel rhan o'r gwaith hwn. Mae ein hymweliad â chi yn un o lawer rydym yn eu gwneud yn ddyddiol.

Efallai y byddwn wedi cyrraedd heb rybudd. Nid yw hyn yn anarferol. Dydyn ni ddim yn dweud wrth bobl bob amser ein bod yn dod ac mae'r gyfraith yn gadael i ni ymweld ar unrhyw amser rhesymol.

Er bod gennym y grym i ddod i'ch gweithle, rhaid i'n harolygwyr ddilyn cod ymarfer y llywodraeth ynghylch mynd i mewn i gartrefi neu fusnesau.

Medrwch gyflwyno cwyn os ydych yn meddwl nad yw ein harolygydd wedi dilyn y cod.

Gweler yr adran 'Cwynion' ar ddiwedd y daflen hon, neu'r wybodaeth ar www.gov.uk/guidance/powers-of-entry.

Yn ystod yr ymweliad

Bydd yr arolygydd yn edrych ar y ffordd yr ydych yn cadw eich gweithwyr, ac unrhyw un a ellir ei effeithio gan eich gwaith, yn iach ac yn ddiogel. Fe allant hefyd gynnig cyngor i chi ar iechyd a diogelwch neu sicrhau eich bod yn darparu adnoddau lles priodol, megis dŵr poeth ac oer a thoiledau.

Tra bo'r arolygydd gyda chi, fe all:

- ofyn i chi am eich gweithwyr a'r hyn maent yn ei wneud;
- edrych ar unrhyw risgiau posibl i iechyd sydd yn deillio o'r gwaith rydych yn ei wneud;
- edrych ar unrhyw beiriannau neu unrhyw offer arall sydd gennych;
- ofyn am gael gweld unrhyw gofnodion neu ddogfennau eraill; a
- thynnu lluniau.

Bydd yr arolygydd eisiau gwybod am:

- y prif faterion iechyd a diogelwch yn eich gweithle; ac
- eich gwybodaeth neu'ch profiad chi o iechyd a diogelwch.

Efallai bydd yr arolygydd eisiau siarad â chi hefyd am bethau fel safonau diogelwch ac ymarferion o ddydd i ddydd yn eich diwydiant.

Eich gweithwyr

Bydd angen i'r arolygydd siarad â'ch gweithwyr neu eu cynrychiolwyr yn ystod ei hymweliad.

Beth os yw rhywbeth o'i le?

Gall yr arolygydd weithredu os byddant yn canfod, yn ystod yr ymweliad, eich bod yn torri'r gyfraith. Gallant hefyd ddweud wrthoch chi am roi'r gorau ar unwaith i weithgarwch peryglus yn eich gweithle. Er enghraifft, gallai cael pobl yn gweithio ar do lle mae'r sgaffaldiau yn anniogel fod yn weithgarwch peryglus

Yn dilyn yr ymweliad

Wedi i'r arolygydd orffen edrych o gwmpas eich gweithle, gall:

- gynnig cyngor (ar lafar neu'n ysgrifenedig);
- roi hysbysiad tramgwyddo i chi
- roi hysbysiad gwella i chi;
- roi hysbysiad gwahardd i chi; neu
- eich erlyn am dorri cyfreithiau iechyd a diogelwch.

Rydym yn cyhoeddi'r holl hysbysiadau gwelat a gwahardd ar ein gwefan:www.hse.gov.uk/notices.

Cyngor

Gall yr arolygydd roi cyngor i chi, ar lafar neu'n ysgrifenedig, ynghylch rhai gwelliannau y medwrch eu gwneud ynghylch iechyd a diogelwch yn eich gweithle. Mae'r cyngor hwn yn rhad ac am ddim.

Hysbysiad tramgwyddo

Llythyr neu ddogfen yw hysbysiad tramgwyddo (NoC) sydd yn dweud wrthoch am y cyfreithiau iechyd a diogelwch rydych wedi eu torri. Mae'n egluro hefyd sut rydych wedi eu torri. Bydd NoC yn dweud wrthoch beth sydd angen i chi ei wneud i roi'r gorau i dorri'r gyfraith.

Bydd yr arolygydd ond yn rhoi NoC i chi os yw'n credu eich bod mewn 'toriad hanfodol' o'r gyfraith. Ystyr hyn yw bod yr arolygydd yn meddwl eich bod wedi torri'r gyfraith yn ddigon difrifol iddynt ysgrifennu atoch amdano.

Os yw'r arolygydd yn rhoi NoC i chi, bydd yn rhaid i chi dalu cost yr ymweliad. Ceir mwy am hyn yn 'Adfer ein costau' ar dudalennau 4.

Hysbysiad gwella

Bydd hysbysiad gwella yn dweud wrthoch chi:

- beth sydd o'i le;
- unrhyw newidiadau sydd rhaid i chi eu gwneud i gywiro hyn; a
- faint o amser sydd gennych i wneud y newidiadau hynny.

Byddwn yn rhoi o leiaf 21 diwrnod i chi wneud unrhyw newidiadau. Byddwch yn cyflawni trosedd os na fyddwch yn gwneud y newidiadau yn yr amser rydym wedi ei roi i chi.

Hysbysiad gwahardd

Efallai y cewch chi hysbysiad gwahardd os oes yna risg bod rhywun am gael niwed personol difrifol yn awr neu yn y dyfodol. Er enghraifft, efallai bod pobl yn gweithio ar do lle mae'r sgaffaldiau yn anniogel.

Mae hysbysiad gwahardd yn eich gorchymyn i roi terfyn ar rywbeth hyd nes i chi ei wneud yn ddiogel i barhau. Er enghraifft, gallai hyn fod yn fater o gadw gweithwyr oddi ar y to nes i chi drwsio unrhyw sgaffaldiau. Byddwch yn cyflawni trosedd os na fyddwch yn cydymffurfio â hysbysiad gwahardd.

Erllyn

Medrwn eich erlyn os byddwch yn torri cyfreithiau iechyd a diogelwch am beidio â chydymffurfio â hysbysiad gwella neu hysbysiad gwahardd. Gall y llysoedd eich dirwyo neu mewn ambell achos eich anfon i garchar.

Anghytuno â'n penderfyniad

Os nad ydych yn cytuno â'r hyn yr ydym wedi ei benderfynu pan fyddwn yn ysgrifennu atoch, fe allwch herio ein penderfyniad.

Byddwn yn dweud wrthoch chi bob amser sut y medrwch herio un o'n penderfyniadau.

Dylech gysylltu â'ch arolygydd neu eu rheolwr cyn i chi ddechrau unrhyw anghydfod ffurfiol yn erbyn un o'n penderfyniadau. Efallai y medrant edrych eto ar y penderfyniad.

Adfer ein costau – ffi am ymyriad

Os byddwn yn cyflwyno hysbysiad o dramgwydd i chi, bydd yn rhaid i chi dalu ffi. Gelwir hyn yn 'ffi ar gyfer ymyriad' (FFI)

Faint fydd hyn yn ei gostio i fi?

Bydd y ffi yn cynnwys costau'r amser ar gyfer yr ymweliad gwreiddiol ar ei hyd. Gall hefyd gynnwys amser yr arolygydd:

- yn eich busnes neu weithle;
- yn paratoi adroddiadau;
- yn cael cyngor arbenigol;
- yn siarad â chi yn dilyn yr ymweliad; ac
- yn siarad â'ch gweithwyr.

Gall y ffi amrywio a bydd yn dibynnu ar:

- hyd yr ymweliad gwreiddiol;
- yr amser dreuliodd yr arolygydd yn eich helpu i gywiro pethau;
- yr amser dreuliodd yr arolygydd yn archwilio eich achos; ac
- unrhyw amser rydym yn ei dreulio yn gweithredu yn eich erbyn.

Talu'ch anfoneb

Rydym yn anfon anfonebau bob deufis. Rhaid i chi dalu unrhyw anfoneb rydym yn ei hanfon atoch o fewn 30 diwrnod.

Beth os nad wyf yn cytuno â'r anfoneb?

Os ydych yn anghytuno gydag unrhyw beth ar eich anfoneb, medrwch holi amdano gyda'r tîm anghydfod anfonebau FFI. Nid yw'n costio i holi am anfoneb.

Os nad ydych yn cytuno gyda'n hymateb ni i'ch ymholiad, medrwch ddadlau amdano gyda'r tîm anghydfod anfonebau FFI. Rhaid gwneud hyn yn ysgrifenedig. Bydd panel dadleuon, sydd yn hollol annibynnol o'r Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch h, yn ystyried y ddadl ac yn ysgrifennu atoch gyda'r canlyniad.

Medrwch ganfod gwybodaeth ynghylch sut i wneud ymholiad neu i ddadlau ynghylch anfoneb FFI ar www.hse.gov.uk/fee-for-intervention.

Cysylltu â'r tîm anghydfod anfonebau

Trwy e-bost

feeforintervention@hse.gov.uk

Ar y ffôn

0300 0033 190

Trwy'r post

HSE FFI Team
HSE
Building 6
Redgrave Court
Bootle
L20 7HS

Cwynion

Os oes gennych unrhyw g ynon ynghylch eich ymweliad, medrwc gysylltu â rheolwr eich

arolygydd i ddweud wrtho pam nad ydych yn hapus. Rhaid i'r arolygydd roi enw eu rheolwr i chi. Os nad ydych yn fodlon â'r hyn mae rheolwr eich arolygydd yn ei ddweud wrthoch, neu unrhyw archwiliad maent yn ei gynnal, medrwc gyflwyno cwyn ysgrifenedig at ein Prif Weithredwr:

Dr Richard Judge
Chief Executive,
Health and Safety Executive
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
L20 7HS

Os nad ydych yn fodlon ar yr ymateb medrwc gysylltu â'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd: www.ombudsman.org.uk.

Os ydych yn meddwl bod ein harolygwyr wedi rhoi'r cyngor anghywir neu gyngor gwael i chi, medrwc gwyno i'r Panel Herio Rheoleiddio Annibynnol: www.hse.gov.uk/contact/challenge-panel.htm

Canfod rhagor

Health and Safety made simple: The basics for your business Taflen INDG449 Llyfrau HSE 2011 www.hse.gov.uk/pubns/indg449.htm

The health and safety toolbox: How to control risks at work
www.hse.gov.uk/toolbox/

Datganiad Polisi Gorfodi HSE41(ad1)
www.hse.gov.uk/enforce/enforcepolicy.htm

Mae'r ffordd y mae'r Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn adfer ei gostau dan y ffi ar gyfer y cynllun ymyriad i'w weld yn www.hse.gov.uk/fee-for-intervention

Sut i herio neu ddadlau am anfoneb FFI:
www.hse.gov.uk/fee-for-intervention

Gwybodaeth bellach

Am wybodaeth ynghylch iechyd a diogelwch, neu i adrodd am anghysondebau yn y canllaw hwn, ewch i www.hse.gov.uk/. Medrwch weld canllawiau Gweithgor Iechyd a Diogelwch ar-lein ac archebu cyhoeddiadau o'r wefan. Mae'r cyhoeddiadau ar gael hefyd o siopau llyfrau.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar-lein ar www.hse.gov.uk/pubns/hsc14.htm.

© Hawlfraint y Goron – Os hoffech ail-ddefnyddio'r wybodaeth hon ewch i www.hse.gov.uk/copyright.htm am fanylion.

